# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Catherine Hunt**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

**(08:45 - 09:00 Rhag-gyfarfod)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 1 - 2)

**2.1 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r Y Gweinidog Newid Hinsawdd**

(Tudalen 3)

**2.2 Cyllideb ddrafft 2024-25 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

(Tudalennau 4 - 6)

**2.3 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - Llythyr gan Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**

(Tudalennau 7 - 8)

**2.4 Asedau Cymunedol - Llythyr gan Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau**

(Tudalen 9)

**2.5 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - Llythyr gan Gadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

(Tudalennau 10 - 11)

**2.6 Llythyr gan Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A Yw Cymru'n Decach? 2023**

(Tudalennau 12 - 17)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.7 Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin – Llythyr gan Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**

(Tudalennau 18 - 21)

**2.8 Asedau cymunedol – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

(Tudalennau 22 - 35)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r eitemau a ganlyn yn ystod y cyfarfod heddiw: eitemau 4 a 7

## 4 Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Dull gweithredu ar gyfer gwaith craffu

(09:00 - 09:15) (Tudalennau 36 - 46)

Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

## 5 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth 4

(09:15 - 10:30) (Tudalennau 47 - 76)

Cynghorydd Huw David, Llywydd CLlLC ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistef Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru CLlLC ac Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn

Cynghorydd Andrew Parkhurst, Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol CLlLC

**Egwyl (10:30 – 10:45)**

## 6 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth 5

(10:45 - 12:15) (Tudalennau 77 - 102)

Clare Sim, Pennaeth Cymorth Aelodau, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

Colin Everett, Cadeirydd, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

Catherine Uphill, Rheolwr, y Comisiwn Etholiadol

## 7 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Trafod y dystiolaeth

(12:15 – 12:30)

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**22 Tachwedd 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| Rhif y papur | Mater | Oddi wrth | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| Papur 1 | Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r Y Gweinidog Newid Hinsawdd | I'w nodi |
| Papur 2 | Cyllideb ddrafft 2024-25 | Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid | I'w nodi |
| Papur 3 | Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) | Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad | I'w nodi |
| Papur 4 | Asedau Cymunedol | Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau | I'w nodi |
| Papur 5 | Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) | Cadeirydd y Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | I'w nodi |
| Papur 6 | Blaenraglen waith | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | I'w nodi |
| Papur 7 | Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin | Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip | I'w nodi |
| Papur 8 | Asedau Cymunedol | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | I'w nodi |

Papur 1

Eitem 2.1

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

13 Tachwedd 2023

Annwyl Julie,

Cydweithio â Llywodraeth y DU ar wahardd rhai arferion cyffredinol o ran gosodiadau preswyl

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref 2023. Rydym yn croesawu'n fawr eich ymdrechion i dynnu ein sylw at y cydweithio hwn a'ch bwriad i ddarparu rhagor o wybodaeth maes o law.

Fel rhan o'r wybodaeth bellach hon, byddai'n arbennig o ddefnyddiol cael y canlynol gennych:

- cadarnhad eich bod yn bwrw ymlaen â Bil Cymru a Lloegr (fel y nodir yn Natganiad Ysgrifenedig y Cwnsler Cyffredinol ar Raglen Ddeddfwriaethol y DU) ac, os felly, pam y defnyddir y dull hwn o ystyried y ffaith bod fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rhentu cartrefi yng Nghymru wedi cael ei greu yn ddiweddar, ac o ystyried hefyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, yn ogystal â deddfwriaeth hygyrch yn fwy cyffredinol;
- amseriad unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig a'ch cynlluniau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Llywydd ac at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Cyllid**

**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

14 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

## Cyllideb ddrafft 2024-25

Ysgrifennais atoch ym mis Ebrill i sôn am waith ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid cyn y gyllideb. Ar 12 Gorffennaf, cynhaliodd y Pwyllgor ei ddadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb arfaethedig, ac rwy'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd. Rwy'n ysgrifennu'n awr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25.

## Ymgynghori a'r amserlen

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi ei ymgynghoriad cyn y gyllideb, ar ran pob Pwyllgor, sy'n cau ar 30 Tachwedd. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.

Gan y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi datganiad yr hydref ar 22 Tachwedd, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Cymru (y Gweinidog) wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi'r Gyllideb amlinellol ddrafft a'r gyllideb fanwl ddrafft gyda'i gilydd ar 19 Rhagfyr. Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid y diwrnod wedyn, ar 20 Rhagfyr, ar gyfer sesiwn dystiolaeth gychwynnol.

## Ffocws y Gyllideb

Mae'r gyllideb eleni yn debygol o ganolbwyntio ar effaith yr argyfwng costau byw, chwyddiant a

thryloywder penderfyniadau ariannol Llywodraeth Cymru.  Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr ydym am i’r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid fforddiadwyedd cynlluniau blaenorol;
- sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- i ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- sut mae dyraniadau cyllideb yn cefnogi’r dyheadau yng nghynllun Sero Net Cymru;
- polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith yr argyfwng costau byw ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau;
- yr agwedd tuag at wariant ataliol, a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (caiff gwariant ataliol ei ddiffinio fel gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau
- sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb
- sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca.
- cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i’r cyfnod pontio ar ôl gadael yr UE ddod i ben.

Yn ogystal â hyn, nodwyd y meysydd a ganlyn fel blaenoriaethau yn ystod y digwyddiadau i randdeiliaid a’r gwaith ymgysylltu a drefnwyd gan y Pwyllgor yn ystod tymor yr haf:

- yr angen i wasanaethau gydweithredu i fynd i’r afael â’r heriau sy’n wynebu’r GIG a’r sector gofal cymdeithasol;
- yr angen i roi digon o adnoddau i lywodraeth leol fedru ymdrin â phwysau cynyddol
- yr angen i roi mwy o gymorth i'r rhai sy'n astudio ac yn gweithio yn y sector addysg;
- yr angen i ganolbwyntio ar fesurau ataliol ac atebion dan arweiniad y gymuned i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb;
- yr angen i roi’r gorau i ariannu’r sector gwirfoddol drwy drefniadau ad-hoc

- yr angen i ganolbwyntio ar wireddu potensial ynni gwyrdd Cymru.

Gobeitho y bydd ein gwaith ymgysylltu, a’r ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig, yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio rhai o’r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws wrth i chi graffu ar y gyllideb.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388, seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Papur 3

Eitem 2.3

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/383/2023
Ein cyf/Our ref qA1762325

15 fed Tachwedd 2023

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Tachwedd mewn perthynas â'r Etholiadau a'r Cyrff Etholedig (Cymru) Bil. Rwyf wedi darparu rhagor o wybodaeth isod mewn ymateb i'ch ymholiadau.

**Cofrestru Etholiadol heb Gais**

Mae'r darpariaethau sy'n gofyn am gofrestr agored yn rhan o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001. Gan mai is-ddeddfwriaeth yw hon, byddwn yn defnyddio is-ddeddfwriaeth i ddileu ei gweithrediad ar gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru. Gwneir hyn yn dilyn Cydsyniad Brenhinol y Bil. I wneud y newid hwn bydd Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau o dan Adran 53 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

Mae effaith cael gwared ar y gofrestr agored ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru yn debygol o gael cyn lleied o effaith ar sefydliadau nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r gofrestr lawn. Daeth adroddiad yn 2013 gan Dŷ'r Arglwyddi i'r casgliad nad oedd y gofrestr agored yn rhoi unrhyw les i'r cyhoedd ac yn cyflwyno risgiau i breifatrwydd. Daeth i'r casgliad hefyd y gall bodolaeth y gofrestr fod yn anghymhelliad i gofrestru i bleidleisio. O gofio y byddwn yn cofrestru etholwyr yn awtomatig, cael gwared ar fynediad at wybodaeth ar gyfer rhai sefydliadau yn teimlo angenrheidiol i fagu hyder yn y ffordd newydd hon o gofrestru ac i ddiogelu ein dinasyddion. I'r rhai sy'n gymwys i gofrestru ar gyfer y gofrestr Seneddol, bydd y gofrestr agored yn dal i fodoli. Mae hyn yn golygu ein bod yn amddiffyn y bobl ifanc 16 ac 17 oed a fydd ar y gofrestr llywodraeth leol i raddau helaeth ond nad ydynt yn gymwys i fod ar y gofrestr Seneddol. Ar gyfer yr etholwyr hynny ar y gofrestr Seneddol, bydd y dewis yn dal ar waith ynghylch a ydynt am fod ar y gofrestr agored ai peidio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Gwasanaethau i hyrwyddo amrywiaeth mewn personau sy'n chwilio am swydd etholedig**

Mae'n bwysig bod y rhwystrau sy'n atal pobl rhag sefyll mewn etholiad ac felly'n cymryd rôl lawn mewn democratiaeth yn cael eu nodi a'u datrys. Er ein bod yn glir y gall yr amgylchiadau economaidd-gymdeithasol y mae unigolion ynddynt effeithio ar eu hopsiynau mewn bywyd, mae angen mwy o ymchwil ynghylch y meini prawf priodol i'w defnyddio i bennu cymhwysedd o dan adran 28 o'r Bil a pha fesurau y gellir eu cymryd i gefnogi unigolion.

Felly, byddwn yn comisiynu ymchwil yn y maes hwn cyn bo hir gyda'r nod o nodi camau y gellir eu cymryd i annog pobl ag ystod o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol i ystyried sefyll mewn etholiad. Y bwriad yw nodi lle mae cefndir economaidd-gymdeithasol unigolyn wedi neu y gallai arwain at anghydraddoldeb canlyniad ynghyd â nodi'r mesurau y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi unigolion yn ystod y broses etholiadol.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried croestoriadoldeb a sut y gall nodweddion gwarchodedig gyfuno â rhai amgylchiadau economaidd-gymdeithasol i gyflwyno rhwystrau i gyfranogiad unigolion mewn democratiaeth.

Mae hwn yn faes cymhleth, sy'n gofyn am archwiliad pellach, a byddwn yn chwilio am ystod eang o safbwyntiau i lunio'r meini prawf cymhwysedd a'r gwasanaethau y gellir eu darparu o dan adran 28 o'r Bil.

Edrychaf ymlaen at fynychu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai eto ar 7 Rhagfyr i drafod y Bil ymhellach.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

November 16th 2023.

Dear John,

I am writing to you in your role as Chair of the Local Government and Housing Committee, following the Community Assets event you kindly participated in on November 7th as a panellist. During the event you spoke about the vital role that the Committee has in following up on the work it has undertaken, with reference to monitoring the progress of recommendations made.

To that end, we note that the twelve-month time frame for the primary recommendation in the Community Assets report has now passed. We are aware you have written to the Welsh Government about this, and that a response from Welsh Government has been retracted, with a replacement response expected at the end of the week commencing November 6th 2023. We welcome your careful monitoring of the situation and would urge you to press for a further, more detailed update from the Welsh Government concerning the development of the Commission to look at Community Ownership.

You will have seen the high level of interest Community Ownership from across the political spectrum in Wales, as well as strong support from a range of community actors. We obviously recognise and acknowledge the multifaceted nature of pressures facing the Welsh Government (chiefly financial pressures and the crowded nature of the legislative programme) but feel strongly that strengthened guidance on Community Asset Transfer (at a minimum) would help to save public money in the long run, by enabling public bodies access to guidance based on best practice.

We would be happy to provide you with support in tabling questions to the Ministers involved if this would be useful. We look forward to hearing from you as how you feel it best to approach this matter.

Yours sincerely,

Chris Johnes
Chief Executive Building Communities Trust

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
**–**
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

16 Tachwedd 2023

Annwyl John

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Biliau Diwygio wrthi'n craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Yn ystod ein gwaith ar y Bil hwn, rydym wedi clywed tystiolaeth gan Fwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Boundaries Scotland ar 9 Tachwedd 2023, a chan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ar 15 Tachwedd 2023, a allai fod o ddiddordeb ac yn berthnasol i waith craffu eich Pwyllgor ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cynnwys, ymhlith materion eraill, darpariaeth i:

- Ailgyflunio Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru fel Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a rhoi iddo'r swyddogaeth o adolygu ac adrodd ar ffiniau etholiadol y Senedd.

- Cynyddu uchafswm nifer y comisiynwyr y caniateir eu penodi i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i saith (a gwneud darpariaeth gysylltiedig mewn perthynas â phersonau na chaniateir eu penodi'n aelodau o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, ei brif weithredwr, neu gomisiynwyr cynorthwyol, ac mewn perthynas â chworwm).

Mae'r Memorandwm Esboniadol i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn egluro bod y darpariaethau yn y Bil wedi'u llunio i adlewyrchu nid yn unig y swyddogaethau ychwanegol y bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru sy'n bodoli ar hyn o bryd yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Bil hwn, ond hefyd y rhai a fydd yn cael eu rhoi iddo yn sgil y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Rydym yn deall y bydd y rhain yn cynnwys:

- Sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol at ddiben cyflawni swyddogaethau gweinyddu etholiadol, gan gynnwys cyfarwyddiadau a chyngor i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol.
- Y swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 9 Tachwedd 2023, rhybuddiodd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban a Boundaries Scotland ynghylch y cynnig yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) y dylai Bwrdd Rheoli Etholiadol statudol Cymru fod yn rhan o swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Ar 15 Tachwedd 2023, dywedodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru pe bai trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith, y gallai fod yn briodol sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru o fewn Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Yn gywir



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth

Leol a Thai

Senedd Cymru

Trwy ebost

Dydd Iau 16 Tachwedd 2023

Annwyl Cadeirydd,

**Testun: Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A Yw Cymru'n Decach? 2023**

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at ein hadroddiad carreg filltir ar gyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yn 2023. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyd-destun Cymreig ac yn cyd-fynd â'n hadroddiad ar Brydain yr ydym wedi'i osod yn Senedd y DU ac a gyhoeddwyd heddiw (16 Tachwedd). Yn benodol, hoffem dynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion sy'n

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

berthnasol i chi fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn dilyn ymlaen o'n hadroddiad olaf "A yw Cymru'n Decach?" yn 2018, mae'r Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach 2023 yn defnyddio'r data cynhwysfawr a amlinellir yn ein Fframwaith Mesur i asesu cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol dros y pum mlynedd diwethaf ledled Cymru.

Yn gyffredinol, rydym wedi canfod bod heriau sylweddol wedi bod i gydraddoldeb a hawliau dynol dros y pum mlynedd diwethaf gan gynnwys:

- effaith ddofn y pandemig COVID-19
- ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd
- y cyfnod o chwyddiant uchel yn ogystal ag effaith economaidd y rhyfel yn yr Wcrain

Mae'r digwyddiadau hyn wedi gwaethygu rhai anghydraddoldebau parhaus, hirdymor. Er enghraifft, mae'r data'n dangos, er bod mwy o bobl ifanc wedi bod yn adrodd am gyflyrau iechyd meddwl ers 2010, mae'r niferoedd wedi codi ymhellach yn ystod y pandemig ac yn parhau i fod yn uchel.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Mae'r digwyddiadau hyn hefyd wedi bod yn gatalydd ar gyfer tueddiadau newydd. Er enghraifft, mae’r cynnydd mewn gweithio gartref wedi bod o fudd i rieni, pobl hŷn a phobl anabl, a’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofal.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar ein gwefan. Hoffwn dynnu eich sylw yn arbennig at rai o’n canfyddiadau lle rydym wedi gweld y canlynol:

- Mae’r bwlch cyrhaeddiad addysg ar lefel cyfnod sylfaen rhwng plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl wedi ehangu ac mae oedolion anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi nag oedolion nad ydynt yn anabl.
- Mae gostyngiad wedi bod yn y gyfran o droseddau treisio a gofnodwyd yn erbyn merched sy'n arwain at gyhuddiadau. Mae pobl ddu neu bobl ethnig gymysg yn fwy tebygol o fod wedi dioddef ymosodiad rhywiol yn y flwyddyn ddiwethaf na grwpiau ethnig eraill.
- Mae bylchau data cydraddoldeb a hawliau dynol sylweddol yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer nodweddion gwarchodedig crefydd, ailbennu rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol ym mhob maes bywyd ac yn ychwanegol ar gyfer hil ym meysydd addysg drydyddol ac iechyd.
- Mae cyfran penodiadau cyhoeddus pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf ac mae cynrychiolaeth menywod mewn llywodraeth leol ac fel prif weithredwyr mewn penodiadau cyhoeddus wedi codi.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Mae ein hadroddiad hefyd yn nodi argymhellion i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn, gan gynnwys:

- Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad cynyddol rhwng plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl a thangynrychiolaeth pobl anabl sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau ac yn eu cwblhau.
- Dylai Llywodraeth Cymru, heddluoedd ac aelodau eraill o Fwrdd Partneriaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru ddeall yn well wahaniaethau ethnig mewn profiadau o ymosodiadau rhywiol a sicrhau bod cyfraddau cyhuddo ar gyfer troseddau casineb, ymosodiadau rhywiol, a threisio yn briodol i'r lefelau a adroddir ac a gofnodwyd.
- Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus yn nodi sut y gallant ddeall materion yn well a llenwi bylchau tystiolaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig crefydd, ailbennu rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol i ddiwallu anghenion eu cymunedau.
- Er mwyn cynyddu amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol ac i sicrhau bod data amrywiaeth yn cael ei gasglu, dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd alw ar lywodraeth y DU i gychwyn adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, i drosglwyddo'r pwerau i wneud hynny, neu i ddeddfu ar gyfer trefniadau etholiadol y Senedd.

Fel y gwyddoch, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus o dan Ddyletswydd

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) gyhoeddi amcanion cydraddoldeb penodol a mesuradwy. Mae ein hargymhellion wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad yr amcanion hyn a helpu i sicrhau y gellir cyflawni'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon mewn ffordd sy'n strategol ac yn canolbwyntio ar yr heriau cydraddoldeb mwyaf arwyddocaol a nodir gan y data.

Byddwn yn eich annog i ystyried sut y gall ein canfyddiadau a'n hargymhellion lywio gwaith y Pwyllgor a chefnogi'r gwaith o graffu ar gamau gweithredu a chynnydd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Byddem yn awyddus i drafod y canfyddiadau a'r argymhellion hyn yn fanylach a byddem yn falch iawn o gynnig cyfarfod i chi pan fydd yn gyfleus i chi.

Yr eiddoch yn gywir,

Parch Ruth Coombs,
Pennaeth Cymru,

---

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
**Ffôn uniongyrchol:** 029 2044 7720


Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales

17 Tachwedd 2023

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 5 Hydref, lle craffwyd ar fater cartrefi i bobl sy'n ffoi o Wcráin. Yn eich llythyr, gofynnoch am ragor o wybodaeth, ac rwy'n falch o ddarparu'r wybodaeth honno isod.

Yn gyntaf, gofynnoch am eglurhad ynghylch a yw ein darparwr llety newydd sef 'Calder World of Travel' wedi cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y DU i ddarparu llety i ffoaduriaid, yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am hyd a gwerth disgwyliedig y contract hwn. Rwy'n deall bod Calder World of Travel yn cael ei ddefnyddio gan y Swyddfa Gartref o bryd i'w gilydd ar gyfer gwahanol gynlluniau, gan gynnwys y cynllun llety pontio i bobl o Afghanistan. O ran hyd a gwerth contract, mae'r contract presennol gyda Calder World of Travel ar gyfer llety cychwynnol yn parhau tan fis Ebrill 2024. Mae potensial i ymestyn y contract tan fis Medi 2024 os bydd angen. Gwerth y contract yng nghytundeb Gwasanaethau Masnachol y Goron yw £15m - £18m dros oes y contract, ond gall hyn amrywio yn dibynnu ar y galw. O ganlyniad, mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar amcangyfrif o wariant ar adeg y dyfarnu, ar sail niferoedd/gofynion hysbys yn ystod haf 2023.

Gofynnwyd hefyd am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch faint o ffoaduriaid o Wcráin sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd, ac unrhyw wybodaeth bellach yn ymwneud â'r mesurau sydd ar waith i gasglu'r wybodaeth hon, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn cofnodi nifer y rhai sy'n gadael Cymru a'u rhesymau dros wneud hynny. O ran y mater hwn, mae gennym wasanaeth rhannu data diogel ar waith rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r Ganolfan Gyswllt. Mae'n cynnig ffynhonnell unigol o wybodaeth gyfredol i'r rhai sy'n darparu cefnogaeth i ddinasyddion Wcráin sy'n dod i Gymru. Mae'r gwasanaeth yn dangos bod tua 4,700 o Wcraniaid yn byw yng Nghymru ar 9/11/23. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu gwybodaeth am y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nifer sydd wedi gadael ac i ble y maent wedi symud, ond nid yw'n casglu rhesymau'r unigolion hynny dros adael.

Gan adeiladu ar fy nhystiolaeth ysgrifenedig ar y gyllideb, gofynnoch am ddadansoddiad pellach o sut y gweinyddwyd y gyllideb o £40 miliwn ar gyfer 2023-24. Gobeithio bod y tabl canlynol yn ddefnyddiol:

| **Pennawd Costau** | | **Dyraniad y Gyllideb** | **Cyllideb Ddiwygiedig** |
|---|---|---|---|
| **Llety Cychwynnol** | Gwestai | | £8,985,000 |
| | Parciau gwyliau | | £6,100,000 |
| | Canolfannau Croeso | | £5,050,000 |
| | Costau cofleidiol | | £3,700,000 |
| | **Is-gyfanswm** | **£27,827,300.00** | **£23,835,000** |
| | Cymorth Cyfnod Croesawu | £150,000.00 | £25,000 |
| | 10% Wrth gefn | £2,782,700.00 | £0 |
| | **Cyfanswm** | **£30,760,000.00** | **£23,860,000** |
| Taliadau atodol i ddiolch i'r rhai sy'n cynnig llety | | **£2,500,000.00** | **£1,300,000** |
| Canolfan Gyswllt | | **£1,748,000.00** | **£1,300,000** |
| Cludiant Brys | | **£50,000.00** | **£100,000** |
| Cyfathrebu a Gweinyddiaeth Fewnol gan gynnwys Costau Cyfreithiol a Chyfieithu | | **£285,000.00** | **£160,000** |
| Llety i Anifeiliaid Anwes | | **£210,000.00** | **£110,000** |
| Llwyfan Data | | **£496,000.00** | **£500,000** |
| Tasglu Symud Ymlaen Cymru | | **£0.00** | **£150,000** |
| **Cyllid i awdurdodau lleol – Cartrefi i Wcráin** | Cymorth i Symud Ymlaen | **£2,000,000.00** | £1,520,000 |
| | Cyllid Setlo ac Integreiddio | **£1,951,000.00** | £1,950,000 |
| | Cyllid pellach i awdurdodau lleol (Cyllid Canlyniadol Digartrefedd gan Lywodraeth y DU) | | £4,750,000 |
| | Cyfanswm | | **£8,220,000** |
| **Cyfanswm** | | **£40,000,000.00** | **£35,700,000.00** |

O ran y gostyngiad o £4.3 miliwn i'r gyllideb hon, roedd y penderfyniad hwn yn dilyn misoedd o waith trawslywodraethol dwys. Rydym ni fel Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun darbodus i ymateb i'r pwysau ariannol eithriadol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus. Fel y gwyddoch, fe ddywedodd fy nghyd-aelod, y Gweinidog Cyllid, Rebecca Evans, wrth siarad yn y Senedd ar 17 Hydref, mai'r flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon yw diogelu gwasanaethau craidd, swyddi, a'r bobl sydd wedi'u taro galetaf gan yr argyfwng costau byw presennol. Cyhoeddodd becyn o newidiadau i gynlluniau gwariant. Gofynnwyd i bob portffolio gweinidogol wneud cyfraniad i ymateb i'r pwysau ariannol eithriadol. Rydym wedi ailflaenoriaethu gwariant a gweithgareddau cymaint â phosibl, yn hytrach na chael gwared ar raglenni yn gyfan gwbl.

Mae hyn wedi cynnwys rhyddhau £4.3 miliwn o raglen yr Ymateb Dyngarol i Wcráin. Sicrhawyd yr arbediad hwn oherwydd llwyddiant ein cynllun i symud gwesteion o lety cychwynnol i lety annibynnol, tymor hwy. Mae hyn, ynghyd â'r arafu yn nifer y rhai sy'n cyrraedd o Wcráin, wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd.

O ran eich cwestiynau am gyfran Cymru o £8.22 miliwn o Gronfa Atal Digartrefedd gwerth £150 miliwn Llywodraeth y DU, neilltuwyd £2 filiwn yn wreiddiol ar gyfer cymorth i symud ymlaen, gan gynnwys £500k ar gyfer cymorth cenedlaethol, a £1.95 miliwn mewn perthynas â chronfa ddewisol, gyda'r dyraniadau'n cael eu haddasu yn ystod y flwyddyn yn unol â'r telerau ac amodau yn llythyr y cynnig grant. Yn dilyn hynny, dyrannwyd £4.75 miliwn ychwanegol yn uniongyrchol i awdurdodau lleol fel cyllid atal digartrefedd.

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor, gofynnodd eich aelodau am wybodaeth ychwanegol am bedwar maes arall. Dyma edrych ar bob un yn ei dro:

- Adborth ar gynnydd mewn perthynas â throi lleoliadau priodol yn drefniadau llety masnachol, os na fydd taliadau diolch ar gael ym mlwyddyn 3

Rydym wedi sefydlu gweithgor bach sy'n cynnwys sawl awdurdod lleol a Housing Justice Cymru i edrych ar ymarferoldeb trosi lleoliadau priodol yn drefniadau llety lle byddai'r gwestai yn cyfrannu at rhent i'w landlord, a'r awydd i wneud hynny. Y bwriad yw rhoi cyfle i drefniadau lletya presennol rhwng lletywyr a gwesteion barhau os daw taliadau diolch i ben, os mai dyna ddymuniad y lletywr a'r gwestai. Rhagwelir y bydd hyn hefyd yn arwain at fanteision ehangach i'r lletywr a'r gwestai o ran cael trefniadau mwy ffurfiol ar waith, gan roi cyfle i'r gwesteion ddechrau byw'n fwy annibynnol mewn amgylchedd â chymorth. Gallai hynny eu helpu i symud ymlaen i lety rhent preifat yn y pen draw. Rydym yn gweithio gyda nifer fach o awdurdodau lleol a fydd yn profi'r trefniadau hyn, er mwyn datblygu astudiaethau achos a fydd yn cael eu cyflwyno i awdurdodau lleol eraill wrth ochr rhai canllawiau cyffredinol er mwyn gallu cyflwyno'r trefniadau yn ehangach os bydd y cynlluniau peilot yn llwyddiannus.

- Rhagor o fanylion am waith dadansoddi y mae Lywodraeth Cymru wedi ei wneud ar y rhesymau dros wrthod llety

Mae adborth ynghylch rhesymau gwesteion dros wrthod cynigion o lety tymor hwy wedi dod i law yn anecdotaidd gan weithwyr achos yr awdurdodau lleol a Housing Justice Cymru, sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda gwesteion i'w helpu i symud ymlaen. Mae ystod gymhleth o resymau pam fod gwahanol aelwydydd wedi gwrthod cynnig llety tymor hwy. Mae'r rhesymau'n cynnwys dewisiadau a ffefrir gan westeion ar gyfer mathau arbennig o lety neu leoliad penodol, pryderon ynghylch fforddiadwyedd tai ac, mewn rhai achosion, amharodrwydd i ymrwymo i drefniadau tymor hwy gan eu bod yn bwriadu symud yn ôl i Wcráin neu y tu allan i Gymru. Mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector yn parhau i weithio gyda gwesteion i reoli eu disgwyliadau ynghylch eu hopsiynau tai a thynnu sylw at fanteision byw'n fwy annibynnol o fewn cymunedau, lle gallant fyw bywydau mwy sefydlog. Mae'r newidiadau diweddar a wnaed gennym i'r Cod Ymddygiad ar gyfer gwesteion sy'n byw mewn llety cychwynnol yn nodi'n glir ei bod yn ofynnol i westeion ymgysylltu'n gadarnhaol ag awdurdodau lleol i ddod o hyd i gartrefi tymor hwy. Daeth y Cod diwygiedig i rym ar 27 Hydref.

Mae cefnogi gwesteion i gael llety tymor hwy yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cyllid yr ydym wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol ledled Cymru i helpu gwesteion i symud ymlaen o lety cychwynnol.

- Manylion cyfanswm y costau a dalwyd i CTM, ar ôl i'r holl ffigurau gael eu cysoni

Hyd yn hyn rydym wedi gwneud taliadau o £24.2m i CTM ers dechrau'r contract ar 17 Mehefin 2022 ac ar hyn o bryd rydym yn prosesu anfonebau eraill sydd heb eu talu eto, gan gysylltu'n agos â CTM fel rhan o'n proses arferol i ddatrys unrhyw ymholiadau sy'n weddill cyn talu.

- Manylion gwaith parhaus Llywodraeth Cymru i ddadansoddi datganiadau blynyddol ar y grant a ddarperir i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu cartrefi (gan gynnwys llety modiwlaidd) ar gyfer y bobl sydd angen tai

Sefydlwyd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 i ddarparu llety tymor hwy o ansawdd da i bawb sydd angen tai, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadsefydlu o Syria, Afghanistan ac Wcráin. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, darparodd y Rhaglen £76.4m i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynnig 936 o gartrefi.

Yn dilyn blwyddyn ariannol 2022-23, gofynnodd swyddogion i dderbynwyr grant TACP gwblhau a dychwelyd ffurflen flynyddol. Roedd y ffurflen hon yn gofyn am wybodaeth megis dyddiadau cwblhau a meddiannu eiddo a ariennir gan TACP, o ble y cafodd y preswylwyr eu hailgartrefu, ac a yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio ar sail drosiannol neu dymor hwy. Nid yw pob ffurflen flynyddol wedi dod i law, ond mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gael gafael ar y ffurflenni sydd ar ôl a dadansoddi'r data a ddarperir ynddynt.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth o gymorth i'r Pwyllgor gyda'r waith craffu sy'n mynd rhagddo.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE/371/2023

John Griffiths AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

John.Griffiths@senedd.cymru

17 Tachwedd 2023

Annwyl John,

Yn dilyn fy llythyr gwreiddiol ar 3 Tachwedd, ysgrifennaf atoch i roi rhagor o sicrwydd mewn perthynas ag Argymhelliad 1, gan fod ganddo oblygiadau hefyd i nifer o'r argymhellion eraill a amlinellir yn Adroddiad 2022 y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar asedau cymunedol.

Mae'r gwaith ar sefydlu'r Comisiwn, ei aelodau, ei gwmpas a sut y bydd yn gweithio wedi gwneud cynnydd da. Rwy'n disgwyl bod mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad ffurfiol ynghylch cadeirydd ac aelodau'r Comisiwn erbyn dechrau mis Ionawr 2024. Mae'r gwaith i gefnogi'r Comisiwn hefyd yn mynd rhagddo, a bydd gwaith ymchwil pwysig yn cael ei gomisiynu cyn bo hir a fydd yn edrych ar ddeddfwriaeth berthnasol ym mhob rhan o'r DU a'r tu hwnt a'i effaith ar berchnogaeth ar gymunedol asedau. Mae hefyd yn ystyried casglu astudiaethau achos manwl ar ble mae perchnogaeth gymunedol ar dir ac asedau wedi gweithio'n dda ac enghreifftiau lle na fu'r broses yn llwyddiannus.

Rwy'n disgwyl i waith y Comisiwn, gan gynnwys y cynigion a'r camau nesaf a argymhellir, ddod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Fel y dywedais yn flaenorol, byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran y Comisiwn a'i waith.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/: RE/371/2023

John Griffiths AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

John.Griffiths@senedd.cymru

03 Tachwedd 2023

Annwyl John,

Diolch yn fawr am eich llythyr yn gofyn am ddiweddariad ar gamau'n codi o Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a gyhoeddwyd yn 2022 ar asedau cymunedol.

Nodwyd diweddariad ysgrifenedig ar gynnydd yn erbyn pob argymhelliad yn y ddogfen a atodwyd i'r llythyr hwn, gan gynnwys manylion y gweithgareddau yr ydym wedi bod yn eu cefnogi o safbwynt argymhelliad 14, a chyllid ar gyfer tai o dan arweiniad y gymuned a thai cydweithredol.

Rwy'n dal i gefnogi'r gwaith gwerthfawr hwn a byddaf yn parhau i ddarparu diweddariadau o ran cynnydd y comisiwn a'i waith.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD 1 Diweddariad i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Asedau Cymunedol, Tachwedd 2023**

---

**Argymhelliad 1.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sefydlu comisiwn i sbarduno ffordd newydd o feddwl am berchnogaeth gymunedol ar dir ac asedau yng Nghymru. Dylid sefydlu'r comisiwn o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn a dylai weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y gwaith. Dylai'r comisiwn wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd eisoes wedi dweud ei bod hi o blaid cytuno i sefydlu comisiwn. Bydd angen ystyried natur a chwmpas comisiwn yn ofalus cyn cymryd camau i weithredu'r argymhelliad hwn. Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y gwaith hwn. Wrth sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen a argymhellir rhaid ystyried yr ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu bresennol – bydd yr ymrwymiadau hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth inni.

**Goblygiadau ariannol:** Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu'r gwaith hwn o fewn yr amserlen a argymhellir.

**Diweddariad Tachwedd 2023**

Cafwyd trafodaethau gyda rhanddeiliaid ar ffurf a chwmpas arfaethedig y comisiwn. Mae rhanddeiliaid wedi bod yn gefnogol o'r cynnig. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn 2023-24 a 2024-5, cyn belled â bod yr adnoddau ar gael.

---

**Argymhelliad 2.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru ac Ystadau Cymru adolygu a diweddaru eu canllawiau presennol ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Dylai'r adolygiad ddechrau o fewn deuddeg mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Wrth gynnal ei hadolygiad, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys grwpiau cymunedol sydd â phrofiad uniongyrchol o'r broses ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, i sicrhau y gellir defnyddio eu hadborth i lywio'r gwaith o ddiweddaru canllawiau.

**Ymateb: Derbyn**

Roedd ein tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cydnabod y byddai adolygiad pellach o'r canllawiau presennol yn cael ei gynnal ac y dylai hyn gynnwys ymgysylltu

ehangach. Mae'n bwysig hefyd bod unrhyw ganllawiau diwygiedig yn cyd-fynd â pholisi cymunedol ehangach.

**Goblygiadau ariannol:** Oes. Ni fyddai’r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu’r gwaith hwn o fewn yr amserlen a argymhellir. Gellid caffael adnoddau allanol, yn amodol ar gadarnhau cyllideb Ystadau Cymru ar gyfer 2023–24.

**Diweddariad Tachwedd 2023**

Mae canllawiau cyfredol yn adlewyrchu’r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu hystyried yn ystod gwaith y comisiwn ac yn cael eu darparu ar ôl i argymhellion y comcyllid isiwn gael eu hystyried.

---

**Argymhelliad 3.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau ar gyfer rhoi ystyriaeth i p’un a ddylai grwpiau cymunedol sy’n bodloni meini prawf y cytunwyd arnynt allu cychwyn y broses o drosglwyddo asedau eu hunain. Dylai’r gwaith hwn gael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi’i argymell.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Grwpiau Cymunedol eisoes yn gallu cychwyn y broses o drosglwyddo asedau.

Mae sylwadau’r Pwyllgor yn cydnabod bod anghysondeb rhwng awdurdodau lleol, ac nad oes gan bob awdurdod lleol bolisi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol. Rydym hefyd yn cydnabod bod tystiolaeth bod cyrff cyhoeddus eraill yn llai gweithgar wrth drosglwyddo asedau i gymunedau, ond eu bod yn chwarae rôl yr un mor bwysig wrth drosglwyddo asedau.

Mae swyddogion o'r farn y gellid sicrhau effeithiau tebyg drwy wella'r canllawiau a sicrhau cysondeb heb osod neu greu disgwyliadau rhy uchelgeisiol ar gyfer cymunedau. Gallai'r canllawiau gynnwys polisïau sampl sydd wedi cael eu profi’n effeithiol.

Bydd adolygiad o’r canllawiau’n cynnwys hyrwyddo manteision trosglwyddo asedau drwy ddefnyddio astudiaethau achos.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Gellir gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol.

**Diweddariad Tachwedd 2023**

Mae canllawiau cyfredol yn adlewyrchu’r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu hystyried yn ystod gwaith y comisiwn ac yn cael eu darparu ar ôl i argymhellion y comisiwn gael eu hystyried.  Gall cymunedau yng Nghymru ddechrau ar y broses trosglwyddo asedau eu hunain.

**Argymhelliad 4.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddiweddaru ei chanllawiau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, ei gwneud yn gliriach bod y broses drosglwyddo yn berthnasol i bob corff cyhoeddus, nid llywodraeth leol yn unig.

**Ymateb: Derbyn**

Gellid ymgorffori'r argymhelliad hwn mewn unrhyw ganllawiau diwygiedig, felly rydym yn cytuno mewn egwyddor fel ymateb i Argymhelliad 2.

**Goblygiadau ariannol:** Oes. Rydym yn derbyn y dylid adolygu a diweddaru'r canllawiau presennol, yn amodol ar dderbyn cadarnhad o gyllideb Ystadau Cymru ar gyfer 2023–24

**Diweddariad Tachwedd 2023**

Mae canllawiau cyfredol yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu hystyried yn ystod gwaith y comisiwn ac yn cael eu darparu ar ôl i argymhellion y comisiwn gael eu hystyried.

---

**Argymhelliad 5.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru, wrth adolygu'r canllawiau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, ystyried sut y gellir eu cryfhau i roi eglurder a sicrwydd i awdurdodau lleol ar asesu buddion gwerth cymdeithasol trosglwyddo ased, gan gynnwys mewn amgylchiadau sy'n arwain at ei drosglwyddo am lai na gwerth y farchnad.

**Ymateb: Derbyn**

Gellid ymgorffori'r argymhelliad mewn unrhyw ganllawiau diwygiedig, felly rydym yn cytuno mewn egwyddor fel ymateb i Argymhelliad 2. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn helpu i ddatblygu fframwaith i gynorthwyo cyrff cyhoeddus sy'n trosglwyddo asedau i nodi'r gwerth cymdeithasol sy'n deillio o wneud hyn.

**Goblygiadau Ariannol:** Oes. Rydym yn derbyn y dylid adolygu a diweddaru'r canllawiau presennol, yn amodol ar dderbyn cadarnhad o gyllideb Ystadau Cymru ar gyfer 2023–24

**Diweddariad Tachwedd 2023**

Mae matrics gwerth cymdeithasol wedi ei ddatblygu a'i brofi ar ddetholiad o drosglwyddiadau asedau. Bydd ymgynghori a datblygu pellach yn digwydd fel rhan o waith y comisiwn.

---

**Argymhelliad 6.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru, wrth adolygu'r canllawiau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, gryfhau'r cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu hategu'n glir gan y Ddeddf.

**Ymateb: Derbyn**

Gellid ymgorffori'r argymhelliad mewn unrhyw ganllawiau diwygiedig, felly rydym yn cytuno mewn egwyddor fel ymateb i Argymhelliad 2.

**Goblygiadau ariannol:** Oes. Rydym yn derbyn y dylid adolygu a diweddaru'r canllawiau presennol, yn amodol ar dderbyn cadarnhad o gyllideb Ystadau Cymru ar gyfer 2023–24

**Diweddariad Tachwedd 2023**

Mae canllawiau cyfredol yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu hystyried yn ystod gwaith y comisiwn ac yn cael eu darparu ar ôl i argymhellion y comisiwn gael eu hystyried. Mae'r matrics gwerth cymdeithasol y cyfeirir ato yn Argymhelliad 6 wedi ei strwythuro o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

---

**Argymhelliad 7.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru, wrth adolygu'r canllawiau ar asedau cymunedol, wella argaeledd astudiaethau achos sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau'n llwyddiannus, a dylai hefyd gynnwys prosiectau mwy diweddar ymhlith yr astudiaethau. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r astudiaethau achos o bryd i'w gilydd i sicrhau bod yr enghreifftiau mwyaf diweddar ar gael i eraill ddysgu oddi wrthynt. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r astudiaethau achos o bryd i'w gilydd i sicrhau bod yr enghreifftiau mwyaf diweddar ar gael i eraill ddysgu oddi wrthynt.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Ystadau Cymru yn parhau i ddatblygu astudiaethau achos a hyrwyddo'r arferion gorau fel rhan o'u gwaith craidd. Mae astudiaethau achos yn cael eu cynnwys yn eu newyddlenni ac mae ganddynt rôl bwysig yn y gynhadledd flynyddol. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gynllun busnes presennol Ystadau Cymru, sy'n cynnwys adolygiad o'r ffordd orau o rannu astudiaethau achos ar arferion da.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Gellid gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol.

**Diweddariad Tachwedd 2023**

Mae Ystadau Cymru yn parhau i hyrwyddo astudiaethau achos drwy ei newyddlen a'r gynhadledd flynyddol. Mae Cronfa Grantiau Rhaglen Cydweithredu Cymru ar Asedau wedi cynorthwyo Grwpiau Cymunedol a'u partneriaid yn y sector cyhoeddus i gydweithredu ar brosiectau sy'n cynnwys Asedau Cymunedol. Mae'r gronfa ar gael i gyrff sector cyhoeddus sy'n cydweithredu â phartner arall ar brosiectau'n seiliedig ar asedau.

Mae enghreifftiau'n cynnwys cyllid grant i'r cynghorau canlynol:

> Cynghorau sir Wrecsam a Phowys i gaffael asesiadau datgarboneiddio ar ganolfannau hamdden a chanolfannau cymunedol sy'n cael eu gweithredu gan sefydliadau'r trydydd sector.
>
> Cyngor Tref Llanelli i wella adnoddau chwaraeon sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned, i gynnwys toiled 'Changing Places' hygyrch i'r cyhoedd. Deallir mai dyma'r adnodd cyntaf o'i fath yng Nghymru. Defnyddiodd y Cyngor ei adnoddau a'i arbenigedd i gefnogi'r cymunedau hynny na fyddent wedi bod â'r gallu i wneud hynny fel arall.
>
> Cyngor Bro Morgannwg i gefnogi'r broses o ddatgarboneiddio asedau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned. Defnyddiodd y Cyngor ei adnoddau a'i arbenigedd i gefnogi'r cymunedau hynny na fyddent wedi bod â'r gallu i wneud hynny fel arall.
>
> Cyngor Wrecsam i osod paneli solar ar ganolfannau hamdden sy'n cael eu rhedeg gan bartneriaid nid-er-elw.

- that directions should be issued sparingly and following the above principle of collectivism. There is protection for ROs and EROs from the risk of conflict between issued directions and their substantive legal duties and powers within the provisions of the Bill. However, the need for balance between the national desire to coordinate and the local requirement upon an RO to enact according to local circumstances/legal duties, should be a constant consideration and uppermost in the minds of EMB members.

We would foresee the new EMB coming into being in the first quarter of 2025.

**Electoral Registration Without Application**

We support the proposals for automatic registration as set out in paragraph 3.23 onwards and are supportive of the ongoing work on planning for, and piloting, new practice. Notwithstanding this support we do need to again stress that Electoral Registration Officers can only secure high registration rates to a point.

We are equally frustrated that a sizeable minority of the eligible public do not register, whether through lack of awareness, disinterest or evasion. We can only share in responsibility for any lack of awareness – of registration rights and

processes - which might prevent a citizen from registering or from maintaining their registration over time. We cannot share in the responsibility for ‘failure rates’ in registration that are due to disinterest or evasion as this is a question of citizen responsibility.

We are confident that automatic registration will make a positive impact on registration rates. We fully support the removal of the open register of electors, a measure which in itself might encourage some who evade registration to come forward. The open register has often been used for commercial marketing purposes. This was never an intention and is arguably a use of the register that conflicts with the principles behind the substantive legislation for data protection.

Having said the above, the maintenance of different registers for reserved and non-reserved elections under different measures (IER versus IER/Automatic registration respectively) will create administrative complexity with additional cost, and will cause some voter confusion.

The proposals will need to be planned and implemented with care, noting the risks of voter confusion and error.

**Elections Piloting and Reform**

We are supportive of the continued approach to piloting reform as set out in paragraph 3.27 onwards and of the roles and responsibilities for oversight and evaluation as set out. Any proposed pilot should be supported by a business case, be fully funded, and should give value for money. The risks, and costs – direct and hidden – should not outweigh the benefits.

We cannot support the proposal for Ministers to be vested with powers to compel participation in pilots as set out in paragraph 3.51. This would be counter-intuitive to the very notion of a pilot exercise where any participating local authority must have the compulsion, confidence and capacity to make it succeed. We have a strong track record of co-operative partnership working in Wales and particularly so in the field of electoral registration, electoral reform and elections management. The concept of mandating is alien to our style of working, and should be withdrawn from the Bill.

At this point we should raise the need for a broader national strategy for digitisation – to be led by Welsh Government in close co-operation with the WECB and our partners. Piloting, and reform, will be held back by a variable approach to digitisation across councils and a lack of investment. The WECB and Welsh Government officials are about to work on a digital strategy looking beyond the provisions of this Bill. An essential first step will be to grant-aid all councils to be able to digitise the administration of the issue of ballot papers, and the maintenance of the recorded electoral registers, within and across all polling stations on the day of an election. Without this platform the scope for pilots e.g. early voting is limited. Whole-sector digitisation would then be a platform for more ambitious reform, such as the introduction of a single digitised electoral register for Wales.

**Accessibility and Diversity**

We support the proposals for support for voters with disabilities as set out in paragraph 3.52 onwards to be consistent with the provisions of UK legislation and avoid divergence between reserved and non-reserved elections (based on one of our principles as set out above). Our support is though conditional that expectations meet the tests of reasonableness – polling stations can only be equipped to meet the needs of voters to a certain extent, noting that polling station teams are themselves able to assist voters with discretion, and without breaching the secrecy to which the voter is entitled in casting their vote. Officials in both Governments, and within the Electoral Commission, are very aware of the limitations in equipping polling stations on the grounds on logistics and cost.

**Candidate Survey**

We support the proposals as set out in paragraph 3.61 onwards in the interests of flexibility and pragmatism. There is no need for statutory regulations to be so prescriptive as has been the case.

**Voter Information Platform**

We are not persuaded that there is value in creating a new voter information platform as set out in paragraph 3.71 onwards. Notwithstanding the public opinion research referred to there is ample information in the public domain - in many accessible and innovative forms - from national bodies, local authorities, and other organisations who promote awareness of citizen democratic rights, electoral registration and individual election events. This combines both regular information and special campaign information around specific initiatives and events. Improved co-ordination of what exists, rather than introduction of another layer of sign-posting, would be a better solution. It will be hard to justify the effort and cost of a new platform alongside the effort and costs of implementing so much electoral reform.

We support the concept of candidates being encouraged to provide personal statements to help voters understand the choice of candidates before them in an election. Many candidates in all types of election are adept in using social media platforms alongside the more traditional mediums for communication, as are the political parties themselves. Therefore, we would need to consider the positioning of any new centralised information platform in this rapidly changing landscape of communications.

We do have major reservations over the proposals as set out.

It would not be feasible for a local authority to host a website upon which candidate statements are uploaded (as referenced in paragraph 3.75). For a combined set of principal and community council local elections, for example, a Returning Officer will field hundreds of candidate nominations in a very tight and challenging electoral timetable. For the Returning Officer and their team to facilitate candidate statements as an administrative process, and crucially to validate/regulate the content provided by each candidate in good time– content which would have to conform to a set of guidance and controls – would be an impossibility. The only precedent we have here is the Police and Crime Commissioner (PCC) elections where the Police Area Returning Officer (PARO) receives, reviews and validates, and uploads a short

statement for each candidate on a national platform. The number of statements involved in PCC elections is typically small in number yet this is still another administrative burden, and one which can be time-consuming depending on the quality and conformity of the information provided by the candidates, in a tight and challenging election timetable.

If a candidate were required to submit a statement as suggested, rather than being entitled to do so, who would enforce this? What would be the sanction for non-compliance? Enforcement would not be an appropriate role for a Returning Officer, and would be a major departure from their substantive role.

Neither would it be comfortable for a local authority to host such a website. Should there be a legal challenge to the content of a candidate statement, for example on the grounds of the truthfulness of their statement, this might reflect on the local authority itself where the Returning Officer, who is normally the Chief Executive of the said authority, has to stand beyond reproach for their independence and personal integrity in overseeing the election in hand. Even were indemnifications to be provided, such a challenge may still cause reputational damage to the local authority and its Returning Officer.

We recommend that the nature and extent of the duty proposed within the Bill for a new voter information platform is given careful thought at this stage.

**Access to Elected Office Fund**

We support the continuation of the Fund as set out in paragraph 3.79 onwards in the interests of making candidature as accessible, and supportable, as possible.

**Campaign Finance**

We support the proposals for changes to the regulation of campaign finance as set out in paragraph 3.89 onwards to be consistent with the provisions of UK legislation and avoid divergence in regulation and practice between reserved and non-reserved elections.

**Arrangements for Local Government**

We support the proposals for the conduct for boundary reviews as set out in paragraph 3.98 onwards. We particularly welcome the provisions in paragraph 3.102 for timescales for the completion of reviews, flexibility in the criteria/matters to be taken into account in determining the number of representative councillors, and the power for Ministers to make modifications to recommendations for example in response to representations.

**Disqualification and Undue Influence**

We support the proposals for changes to the provisions for disqualification as set out in paragraph 3.115 onwards in the interests of consistency and simplicity.

We support the proposals for the definition of the offence of 'undue influence' as set out in paragraph 3.123 onwards both (1) to be consistent with the provisions of UK legislation and to avoid divergence in regulation and practice between reserved and

non-reserved elections and (2) to more easily enable prosecution where offences have occurred.

**Regulatory Impact Assessment**

The WECB was fully involved with the work on parts of the Regulatory Impact Assessment (RIA) co-ordinated by the Welsh Local Government Association. The RIA is comprehensive and its construction was an inclusive process. We have no specific observations or additional comments to make.

# Ymgynghoriad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – ymateb y Comisiwn Etholiadol

Tachwedd 2023

## Rhagarweiniad

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb trwy’r canlynol:

- galluogi cyflawni etholiadau a refferenda rhydd a theg, canolbwyntio ar anghenion etholwyr, a mynd i'r afael ag amgylchedd sy'n newid i sicrhau bod pob pleidlais yn parhau i fod yn ddiogel ac yn hygyrch.
- rheoleiddio cyllid gwleidyddol - cymryd camau rhagweithiol i gynyddu tryloywder, sicrhau cydymffurfiaeth, a mynd ar ôl achosion o dorri rheolau
- defnyddio ein harbenigedd i wneud newidiadau i'n democratiaeth ac eirioli drostynt, gan geisio gwella tegwch, tryloywder ac effeithiolrwydd

Sefydlwyd y Comisiwn Etholiadol yn 2000 ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd Cymru, Senedd yr Alban, a Senedd y DU.

## Trosolwg o'r ymateb

Mae’r ymateb hwn yn nodi ein barn ar Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Rydym wedi ymateb i’r darpariaethau sy’n uniongyrchol berthnasol i’n gwaith – mae rhai agweddau nad ydynt yn dod o fewn ein cylch gorchwyl, a lle mae hyn yn wir, nid ydym wedi gwneud sylwadau.

Os caiff y Bil ei basio i’r gyfraith, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gweinyddwyr etholiadol, ymgyrchwyr a phleidleiswyr i sicrhau bod pawb sy’n ymwneud ag etholiadau yn deall ac yn barod ar gyfer y newidiadau sy’n cael eu cyflwyno. Byddwn yn cynhyrchu canllawiau i weinyddwyr etholiadol ac yn darparu cymorth i ymgyrchwyr i gydymffurfio â’r gyfraith, a byddwn yn gweithio i sicrhau bod pleidleiswyr yn deall unrhyw newidiadau, o’r Bil hwn ac o ddeddfwriaeth diwygio’r Senedd ehangach.

## Cefndir i'r Bil a meysydd allweddol

Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Weinyddiaeth Etholiadol a Diwygio, a gyhoeddwyd yn 2022, yn cynnig nifer o newidiadau yr ydym wedi galw amdanynt yn flaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau i sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru, archwilio opsiynau ar gyfer moderneiddio prosesau cofrestru etholiadol trwy gofrestru awtomatig, a chymryd camau i gydgrynhoi a symleiddio cyfraith etholiadol Cymru.

Gwnaeth y Papur Gwyn hefyd ystyried yr heriau y gallai rheolau gwahanol ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig yng Nghymru eu cyflwyno yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022 a fydd yn berthnasol i etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, ond nid i etholiadau Senedd Cymru nac i etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Papur Gwyn yn nodi sefyllfa Llywodraeth Cymru, sef y byddai, mewn ardaloedd lle mae polisïau'n alinio, yn ceisio cynnal cymaint o gysondeb â phosibl yn y rheolau ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig.

Mae Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn garreg filltir sylweddol wrth gyflawni rhai o'r newidiadau hyn. Bydd yn symud ymlaen darpariaethau i beilota cofrestriad awtomatig etholwr ac yn sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol ar gyfer Cymru, a fydd yn cyflawni'r swyddogaeth sy'n cael eu harfer yn bresennol gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Bydd yn alinio'r rheolau ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig mewn sawl maes pwysig, gan gynnwys cyllid ymgyrchu a sut y gellir cefnogi pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol. Mae'r rhain yn newidiadau positif, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r gymuned etholiadol i'w gweithredu'n effeithiol.

## Cydgrynhoi cyfraith etholiadol

Bydd y Bil hwn, ochr yn ochr â'r ddau ddarn o is-ddeddfwriaeth ar gyfer diwygio'r Senedd ac unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig yn cynyddu'n sylweddol corff cyfraith etholiadol ddatganoledig yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni ei nod, fel y nodir yn y Papur Gwyn, i foderneiddio cyfraith etholiadol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai'r cam cyntaf yn y broses hon fydd disodli Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 gyda Gorchymyn Ymddygiad mwy modern a hygyrch, ac rydym yn edrych ymlaen at gefnogi'r gwaith hwn. Dylai ffocws Llywodraeth Cymru wedyn droi at gyfnerthu ehangach y gyfraith etholiadol ddatganoledig cyn etholiad 2030, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Papur Gwyn, Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac argymhellion comisiynau cyfraith y DU y'u cefnogir yn eang gan y gymuned etholiadol.

## Gweithredu'r diwygiadau

Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gweinyddwyr etholiadol yn cael y gefnogaeth a'r adnoddau priodol i gyflawni'r diwygiadau hyn. Mae gweithredu'r Bil hwn yn debygol o redeg ochr yn ochr â deddfwriaeth diwygio'r Senedd a gwaith parhaus i gyflawni darpariaethau'r Ddeddf Etholiadau ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl, ac mae llawer o weinyddwyr yng Nghymru wedi mynegi pryderon am eu gallu i gyflawni'r newidiadau aml-haenog hyn o fewn amgylchedd sydd eisoes yn gymhleth. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu rhoi i'r newidiadau hyn, a bod cynllunio a chyfathrebu effeithiol gyda'r gweinyddwyr etholiadol drwy gydol y broses, drwy fforymau fel Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru ac

unrhyw Fwrdd Rheoli Etholiadol yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi gweinyddwyr etholiadol trwy ddarparu canllawiau a chymorth.

Dylai'r holl ddeddfwriaeth fod yn ei lle cyn gynted â phosibl - o leiaf chwe mis cyn y mae'n ofynnol i ymgyrchwyr neu weinyddwyr etholiadol gydymffurfio â hi neu ei rhoi ar waith. Mae hon yn egwyddor sefydledig o weinyddu etholiadol effeithiol a gefnogir yn eang gan y gymuned etholiadol. Bydd sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth yn glir cyn gynted â phosibl yn caniatáu digon o amser i ni baratoi'r canllawiau a'r codau ymarfer gofynnol, ac i'r gymuned etholiadol gynllunio a pharatoi ar gyfer y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno.

Rydym wedi nodi rhai sylwadau penodol isod ar gymalau perthnasol y Bil.

# Rhan 1: Gweinyddiaeth etholiadol a chofrestru

## Pennod 1: Cydlynu gweinyddiaeth etholiadol

### Bwrdd Rheoli Etholiadol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Mae Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC) wedi chwarae rôl bwysig ers 2017 wrth ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd i gydlynu gweithgarwch etholiadol Mae wedi darparu platfform ar gyfer trafodaeth ac wedi helpu i sicrhau cysondeb wrth gynnal etholiadau. Mae wedi gallu sefydlu a gweithredu cynlluniau fel y rhaglen mentora Swyddogion Canlyniadau a'r Eirfa o Dermau Etholiadol Dwyieithog.

Rydym wedi galw o'r blaen i'r BCEC gael ei osod ar sylfaen statudol a'i fod yn cael adnoddau priodol er mwyn adeiladu ar y gwaith hwn. Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol arfaethedig yn gallu chwarae rhan gryfach wrth ddod â gweinyddwyr etholiadol at ei gilydd a sicrhau cysondeb yn narpariaeth digwyddiadau etholiadau Cymru gyfan.

Rydym wedi darparu rhai sylwadau isod ar elfennau penodol o'r darpariaethau.

### Annibyniaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol

Fel mae'r memorandwm esboniadol yn amlinellu, bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael ei sefydlu fel rhan o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae'r Bil yn mewnosod adrannau newydd 20A i 20I i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac ati. Deddf 2013 ("Deddf 2013"), yn rhoi'r swyddogaeth gyffredinol o gydlynu gweinyddiaeth etholiadau a refferenda Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae adran newydd 20E yn nodi bod yn rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol, a bod yn rhaid i swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o dan adrannau 20A i 20D ond cael eu harfer gan y Bwrdd hwn.

Er ein bod yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r dull hwn, bydd yn hollbwysig sicrhau bod y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn parhau i fod yn weithredol annibynnol o Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i sicrhau hyder parhaus yn y broses ddemocrataidd.

Bydd nifer o'r adrannau newydd a fewnosodwyd i Ddeddf 2013 yn helpu i sicrhau'r annibyniaeth hon, yn enwedig adrannau newydd 20E (swyddogaethau a ddirprwywyd i'r

Bwrdd Rheoli Etholiadol) ac Adran 20F (aelodaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol). Fodd bynnag, mae risgiau'n parhau mewn perthynas â sut y gall rhanddeiliaid a'r cyhoedd ganfod lefel annibyniaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol o dan y model hwn, gan gynnwys y ffaith y bydd yn cael ei sefydlu fel rhan o gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru achub ar bob cyfle mewn deddfwriaeth, canllawiau ac unrhyw gyfathrebiadau allanol ynghylch Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), i ddangos yn glir sut y bydd annibyniaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael ei ddiogelu. Gallai hyn gynnwys ystyried a ddylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol fod yn atebol yn ffurfiol i un o bwyllgorau'r Senedd, megis Pwyllgor y Llywydd.

Yn gysylltiedig ag ystyriaethau o amgylch annibyniaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol, mae anghysondeb posibl yn nhrafft y Bil y mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am ei archwilio ymhellach gyda Llywodraeth Cymru. Byddai adran newydd 20E(4) yn galluogi'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i arfer y pwerau 'ffafriol a deilliadol' a nodir yn Adran 12 o Ddeddf 2013. Fodd bynnag, mae'r geiriad ar ddiwedd adran newydd 20E(4) yn nodi'n glir y gall Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru hefyd arfer y pwerau ffafriol a deilliadol hyn mewn perthynas â'r swyddogaethau a ddirprwywyd i'r Corff Rheoli Etholiadol. Gan fod adran newydd 20E(2) yn nodi'n glir mai dim ond y swyddogaethau a ddirprwywyd i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol all gael eu harfer gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol ei hun, nid yw'n glir ar unwaith sut na pham y byddai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn gallu defnyddio'r pwerau 'ffafriol a deilliadol' hyn mewn perthynas â'r swyddogaethau a ddirprwywyd i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

### Gorgyffwrdd gyda swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol

Mae'r memorandwm esboniadol ar gyfer y Bil yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru y bydd rôl y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn ategu gwaith y Comisiwn Etholiadol ac na fydd yn gorgyffwrdd ag unrhyw un o'n cyfrifoldebau presennol. Mae hon yn egwyddor bwysig. Mae ein swyddogaethau statudol presennol (a nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000) yn cynnwys darparu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, cyngor i Weinidogion Cymru a'r Senedd, a gwybodaeth i bleidleiswyr a chodi ymwybyddiaeth. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ei hun, yn y camau cynllunio ac unwaith y bydd wedi ei sefydlu, i sicrhau nad yw eu gwaith yn gorgyffwrdd â'n gwaith ni a bod rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a grwpiau a sefydliadau eraill yn cael eu nodi'n glir.

### Aelodaeth

Mae adran newydd 20F o Ddeddf 2013, fel y'i diwygiwyd gan y Bil, yn ymwneud ag aelodaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol. Mae'n nodi y dylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gynnwys:

- Cadeirydd, y mae'n rhaid iddynt fod yn aelod o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac yn gynt yn swyddog etholiadau.
- Un aelod arall o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
- O leiaf pedwar aelod sydd naill ai'n swyddogion etholiadau presennol neu flaenorol, gydag un o'r rhain i wasanaethu fel dirprwy gadeirydd.

Rydym wedi dweud yn flaenorol y bydd angen i gadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol gael profiad sylweddol o weinyddiaeth etholiadol, ar lefel uwch, i sicrhau hygrededd o fewn y gymuned etholiadol yng Nghymru. Bydd y gofyniad i'r cadeirydd fod yn Swyddog

Canlyniadau flaenorol neu’n Swyddog Cofrestru Etholiadol flaenorol yn mynd cryn dipyn o ffordd tuag at sicrhau hyn.

Mae'r gofyniad bod o leiaf pedwar aelod arall sydd naill ai'n swyddogion etholiadau presennol neu flaenorol hefyd yn bwysig, a dylai helpu i sicrhau lefel o gysondeb ac arbenigedd o fewn aelodaeth craidd y Bwrdd Rheoli Etholiadol. Ein barn ni yw y dylai cymaint o’r aelodaeth ag sy’n bosibl gael ei dynnu o swyddogion etholiadol presennol yn hytrach na rhai blaenorol, er mwyn helpu sicrhau dealltwriaeth a phrofiad byw o gynnal etholiadau yng Nghymru. O ran aelodaeth ehangach y tu hwnt i'r gofynion a nodir yn y gyfraith, mae aelodaeth bresennol y BCEC yn cynnwys y Cadeirydd, pum Swyddog Canlyniadau rhanbarthol arweiniol, a hyd at bedwar cynrychiolydd o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Cymru. Er ei fod yn y pen draw yn fater i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd, mae'r strwythur aelodaeth hwn wedi gweithio'n dda i'r BCEC.

Gwahoddir nifer o randdeiliaid hefyd i fynychu'r BCEC mewn rôl gynghori, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU. Mae'r dull hwn wedi gweithio'n dda hyd yma, gan ganiatáu i ystod o randdeiliaid fod yn rhan o drafodaethau, a byddem yn argymell bod y sefydliadau hyn yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol mewn rôl gynghori. Byddai’r adran newydd 20(H)(4) yn caniatáu i'r rhai nad ydynt yn aelodau fynychu cyfarfodydd yn y modd hwn.

### Cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Byddai adrannau newydd 20B a 20C Deddf 2013, fel y’i diwygiwyd gan y Bil, yn caniatáu i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol roi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion cofrestru Etholiadol am eu dyletswyddau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir yn ôl yng Nghymru. Byddai adran newydd 20D yn gofyn bod y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn ymgynghori â’r Comisiwn Etholiadol cyn rhoi cyfarwyddiadau o'r natur hon.

Byddai’r darpariaethau hyn yn helpu i sicrhau cysondeb wrth gynnal etholiadau datganoledig. Byddai hyn yn dod â Chymru yn unol â’r sefyllfa bresennol yn yr Alban, lle mae pŵer y Bwrdd Rheoli Etholiadol i roi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi helpu i sicrhau lefel o gysondeb – er enghraifft, yn y dyddiadau anfon ar gyfer pleidleisiau post a chardiau pleidleisio a lliw papurau pleidleisio. Mae’r gofyniad i’r Bwrdd Rheoli Etholiadol ymgynghori â ni cyn rhoi cyfarwyddyd i Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd yn gyson â’r model presennol yn yr Alban, lle mae wedi gweithio’n dda ac wedi helpu i sicrhau nad yw unrhyw gyfarwyddiadau yn anghyson â’n canllawiau neu ein fframwaith safonau perfformiad presennol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

## Pennod 2: Cofrestru etholiadol heb geisiadau

### Yr angen i foderneiddio cofrestru etholiadol

Mae yna angen brys i ddiwygio cofrestru etholiadol yn y DU. Mae ein hymchwil diweddaraf ar gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol mis Rhagfyr 2022 yn awgrymu y gallai fod 400,000 o bobl yng Nghymru sydd naill ai heb eu cofrestru’n gywir neu sydd ag anghysondebau yn eu cofnodion cofrestr llywodraeth leol. Rydym wedi canfod yn gyson bod rhai grwpiau penodol o bobl yn sylweddol yn llai tebygol o fod wedi’u

cofrestru i bleidleisio yn gywir, yn enwedig pobl ifanc, pobl sy’n rhentu’n breifat a'r rhai sydd wedi newid eu cyfeiriad yn ddiweddar.

Nid oes llawer o dystiolaeth i awgrymu y bydd y sefyllfa hon yn gwella’n sylweddol heb newidiadau mawr i’r system cofrestru etholiadol bresennol, ac rydym yn parhau i argymell bod llywodraethau ar draws y DU yn archwilio diwygiadau dichonadwy yn y maes hwn mewn o fanylder. Fel rhan o’n hadroddiad diweddar ar gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol, gwnaethom amlygu sawl astudiaeth achos yn dangos sut y gellid moderneiddio cofrestru etholiadol, yn amrywio o gofrestru awtomatig i fathau o gofrestru integredig neu gofrestru â chymorth lle byddai angen i bleidleiswyr ddarparu rhywfaint o wybodaeth eu hunain o hyd. Gwnaethom hefyd gyfres o argymhellion, gan gynnwys:

- Dylai llywodraethau Cymru, yr Alban a’r DU basio deddfwriaeth i greu pyrth cyfreithiol clir i adrannau'r llywodraeth a chyrff y sector cyhoeddus rannu data ar unigolion a allai fod yn gymwys gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

- Dylid cael dull cyson rhwng llywodraethau, i sicrhau bod unrhyw newidiadau’n cael eu datblygu a'u darparu mewn ffordd sy'n ei gwneud mor syml â phosibl i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a sefydliadau ffynonellau data.

- Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu'r gwasanaeth digidol presennol ar gyfer Cofrestru Etholiadol Unigol i gefnogi rhannu data yn ddiogel ac yn effeithlon rhwng sefydliadau ffynonellau data a Swyddogion Cofrestru Etholiadol a’u systemau meddalwedd rheoli etholiadol.

**Dyletswydd i gofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais**

Byddai Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn cyflwyno gofyniad newydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiad i gofrestru unigolion ar y gofrestr llywodraeth leol yn awtomatig y byddant yn fodlon bod ganddynt hawl i fod yn gofrestredig. Byddai angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol anfon hysbysiad cofrestru at bob etholwr cymwys, a fyddai wedyn yn cael 45 diwrnod i ymateb os oeddent yn gymwys i gofrestru’n ddienw neu os nad oeddent yn dymuno cael eu cofrestru’n awtomatig. Ar ddiwedd y cyfnod o 45 diwrnod byddai’n ofynnol i’r Swyddog Cofrestru Etholiadol eu hychwanegu i’r gofrestr.

Mae cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn gyffredin ledled y byd, a gallai helpu i wella lefelau cyflawnrwydd – yn enwedig ymhlith grwpiau sydd wedi’u tan-gofrestru Mae ymchwil gymharol rhyngwladol mwy diweddar wedi dangos bod cofrestru awtomatig hefyd yn gallu cael effaith bositif ar gywirdeb. Fodd bynnag, mae yna hefyd ystod o ystyriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru wrth iddi fwrw ymlaen â’r darpariaethau hyn. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Y setiau data, neu gyfuniad o setiau data, a fyddai ar gael i Swyddogion Cofrestru Etholiadol at ddibenion cofrestru etholwyr heb gais, a ph’un a fyddai'r rhain yn darparu digon o wybodaeth i ganiatáu Swyddog Cofrestru Etholiadol i gofrestru person. Bydd angen i unrhyw ddata a ddefnyddir fel y sail am gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig fod yn ddibynadwy, yn gyfredol, ac yn ddigon cyflawn i ddilysu cymhwystra person i fod yn gofrestredig.

- Yr heriau sy’n gysylltiedig â gwneud y newidiadau hyn ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol heb newidiadau cyfatebol i’r gofrestr seneddol, yn enwedig mewn perthynas â chyfathrebu â phleidleiswyr a sicrhau eu bod yn deall pa etholiadau y maent wedi’u cofrestru i bleidleisio ynddynt.

- Gwybod pryd mae rhywun eisoes ar y gofrestr.

- Y seilwaith technegol sy'n ofynnol i gefnogi'r diwygiadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddylunio a pheilota modelau cofrestru awtomatig, gyda gwerthusiad annibynnol o unrhyw gynlluniau peilot a gynhelir gan y Comisiwn Etholiadol, cyn cychwyn ar y darpariaethau hyn. Bydd hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw system yn ymarferol a bod gweinyddwyr etholiadol yn gallu ei chyflawni'n realistig gan weinyddwyr etholiadol cyn ei bod yn cael ei chyflwyno'n fwy eang. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru a'r gymuned etholiadol ehangach i gefnogi'r maes diwygio hwn.

### Cyfathrebu gyda phleidleiswyr

Wrth i'r darpariaethau hyn gael eu symud ymlaen ac wrth i waith ddechrau ar ddatblygu cynlluniau peilot ar gyfer cofrestru awtomatig gydag awdurdodau lleol, bydd angen ystyried yn ofalus sut bydd y polisi hwn yn cael ei gyfleu i'r cyhoedd gan Lywodraeth Cymru.

Er enghraifft, mae'r memorandwm esboniadol ar gyfer y Bil yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r ddyletswydd newydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gofrestru etholwyr llywodraeth leol: "*Golyga hyn na fydd rhaid i ddinasyddion wneud cais i gofrestru i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd nac etholiadau lleol*." Er efallai mai dyma'r bwriad hirdymor y tu ôl i'r darpariaethau hyn, nid yw'n glir eto sut y byddai unrhyw system yn gweithio'n ymarferol, ac mae'n debygol y bydd yna bobl na fyddant yn gallu cael eu cofrestru'n awtomatig o dan y ddyletswydd newydd oherwydd nad oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddigon o ddata i fod yn fodlon bod gan y person hawl i fod yn gofrestredig. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod hyn yn cael ei gyfleu'n glir i'r cyhoedd wrth i'r darpariaethau hyn gael eu symud ymlaen.

Mae yna risg ar wahân efallai na fydd pleidleiswyr sy'n cael hysbysiad cofrestru o dan y darpariaethau hyn yn deall y byddai dal angen iddynt fynd drwy'r broses gwneud cais am Gofrestriad Etholiadol Unigol er mwyn bod yn gofrestredig i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Bydd angen nodi hyn yn glir ar yr hysbysiad cofrestru a anfonwyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

### Etholwyr di-enw

Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus a mynd i'r afael â'r risg y bydd rhywun sy'n gymwys i gofrestru'n ddienw yn colli neu ddim yn derbyn yr hysbysiad gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ac mae eu henw yn cael ei ychwanegu i'r gofrestr ar ôl y 45 diwrnod.

Bydd angen i'r hysbysiad cofrestru gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol nodi'n glir ac yn amlwg pryd y bydd cyfnod o 45 diwrnod yn dod i ben er mwyn caniatáu i bobl gymryd camau amserol, er enghraifft i wneud cais am gofnod dienw neu i hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol nad ydynt yn dymuno bod yn gofrestredig.

### Dileu'r gofrestr agored

Rydym wedi argymell yn flaenorol na ddylid gwneud y gofrestr agored mwyach ac ni ddylai fod ar gael i'w phrynu. Yn hytrach, dylai dim ond cael ei defnyddio at ddibenion etholiadol ac ystod gyfyngedig o ddibenion diogelwch statudol ac atal troseddau.

Wrth i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'i chynigion i ddileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru, bydd angen iddynt ystyried yn ofalus sut y gallant

sicrhau bod pleidleiswyr yn deall y bydd y gofrestr agored yn dal i fodoli ar gyfer y gofrestr seneddol ac y byddai dal angen iddynt gymryd camau er mwyn optio allan ohoni.

## Pennod 3: Cynlluniau peilot a diwygio etholiadau yng Nghymru

### Cynlluniau peilot yng Nghymru

Mae Pennod 3 o'r Bil yn cyflwyno pwerau arwyddocaol newydd i ganiatáu ar gyfer peilota prosesau etholiadol arloesol mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru, gan ehangu ar y darpariaethau presennol o amgylch cynlluniau peilot yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Bydd modd nawr i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnig cynlluniau peilot, a gallant ymwneud ag ystod ehangach o faterion etholiadol nag o dan Ddeddf 2000. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru symud ymlaen â chynlluniau i beilota cofrestriad awtomatig etholwyr llywodraeth leol, er enghraifft, cyn cyflwyno unrhyw newidiadau yn fwy eang.

Dylai unrhyw gynlluniau peilot sy'n cael eu symud ymlaen gan Lywodraeth Cymru gael eu dylunio'n ofalus, gydag amcanion clir a realistig, i sicrhau y gallant ddarparu tystiolaeth gref i gefnogi penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

### Gwerthuso rheoliadau cynllun peilot

Mae Cymal 18 yn rhoi dyletswydd benodol ar y Comisiwn Etholiadol i baratoi adroddiad ar weithrediad rheoliadau cynlluniau peilot ac i anfon hwn at Weinidogion Cymru a Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol perthnasol. Mae Cymal 6(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau cynlluniau peilot, nodi erbyn pryd y mae'n rhaid i ni anfon ein hadroddiad. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â ni cyn nodi'r dyddiad hwn er mwyn sicrhau ei bod yn cymryd i ystyriaeth yr amser y bydd ei angen i'r data perthnasol gael ei gasglu, ei adrodd i ni a'i ddadansoddi cyn i ni gyhoeddi ein hadroddiad.

### Pŵer Gweinidogion Cymru i orfodi cynlluniau peilot

Er y byddai'n fuddiol i gynlluniau peilot etholiadol yn y dyfodol gynnwys ystod o awdurdodau lleol o ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig ac o wahanol feintiau, bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried yr effaith andwyol y gallai cyfarwyddo awdurdod lleol i gynnal cynllun peilot heb eu caniatâd ei chael – er enghraifft, os oedd bylchau capasiti sylweddol yn nhîm gwasanaethau etholiadol awdurdod lleol neu os oedd Swyddog Canlyniadau newydd neu gymharol ddibrofiad yn y swydd.

Gallai cynllunio a chyfathrebu cynnar ag awdurdodau lleol am gynlluniau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sicrwydd y byddant yn cael digon o adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau peilot, helpu i gynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt a lleihau'r tebygolrwydd y byddai angen i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn.

## Pennod 4: Hygyrchedd ac amrywiaeth – etholiadau yng Nghymru

### Cymorth i bleidleiswyr anabl

Dylai pawb allu cofrestru a bwrw eu pleidlais heb wynebu rhwystrau. Er bod gwelliannau sylweddol wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf, rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud o hyd i wella'r profiad pleidleisio ar gyfer pobl anabl. Yn yr etholiadau lleol yn 2022, gwnaeth ein hymchwil ganfod fod bron pob pleidleisiwr (97%) wedi ffeindio'r papur pleidleisio'n

hawdd i’w lenwi, a bod tri ym mhob pedwar (74%) wedi’i ffeindio’n hawdd, ond roedd y ffigur hwn yn is ymhlith pleidleiswyr anabl neu’r rheiny sydd â phroblem iechyd (67%).

**Newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022**

Ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl yng Nghymru, disodlodd y Ddeddf Etholiadau yr angen penodol i ddarparu dyfais pleidleisio gyffyrddadwy mewn gorsafoedd pleidleisio gyda dyletswydd ehangach ar Swyddogion Canlyniadau i ddarparu cyfarpar y mae’n rhesymol ei ddarparu i alluogi pobl anabl i bleidleisio’n annibynnol ac yn gyfrinachol yn yr orsaf bleidleisio, neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hyn. Roedd hefyd yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i gynhyrchu canllawiau i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau ac i ymgynghori ar y canllawiau hyn, ac i Swyddogion Canlyniadau ystyried y canllawiau hyn.

Dylai’r ddyletswydd newydd hon gynyddu hyblygrwydd o amgylch y mathau o gyfarpar a'r cymorth sydd ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio, yn ogystal â chyflymu’r broses o ddarparu cymorth ychwanegol pan nodir cyfleoedd neu fylchau – er enghraifft mewn ymateb i ddatblygiadau mewn technoleg gynorthwyol. Rydym wedi cynhyrchu canllawiau ac enghreifftiau o arfer da i gefnogi Swyddogion Canlyniadau wrth iddynt fodloni eu dyletswyddau newydd, ac rydym yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau partner i gyfathrebu’r newidiadau hyn i bleidleiswyr.

**Darpariaethau cyfatebol ar gyfer etholiadau datganoledig**

Mae'r memorandwm esboniadol yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i alinio’r rheolau ar gyfer etholiadau datganoledig yn y maes hwn gyda’r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Etholiadau. Bydd cyflawni cysondeb yn y rheolau rhwng etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig yn y maes hwn yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall y cymorth y gallant ei ddisgwyl wrth bleidleisio, ac yn llai cymhleth i weinyddwyr etholiadol.

Bydd y Bil ei hun yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar y camau a gymerir gan Swyddogion Canlyniadau i gynorthwyo pobl anabl yn etholiadau Senedd Cymru ac mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Er mwyn hwyluso hyn, bydd hefyd yn ymestyn ein dyletswyddau adrodd am etholiad swyddogol i gynnwys etholiadau llywodraeth leol cyffredin yng Nghymru. Rydym eisoes yn adrodd ar etholiadau llywodraeth leol fel mater o drefn, ond bydd y darpariaethau hyn yn ffurfioli hyn.

Bydd y ddyletswydd ehangach ar Swyddogion Canlyniadau i gefnogi pleidleiswyr anabl, yn ogystal â'r gofyniad i’r Comisiwn anfon canllawiau i gynorthwyo Swyddogion canlyniadau i fodloni’r ddyletswydd hon, yn cael eu cyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth. Nid yw'r memorandwm esboniadol yn nodi a fyddai angen i’r Comisiwn ymgynghori ar y canllawiau hyn. Gan ein bod eisoes wedi ymgynghori’n eang gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y gymuned etholiadol a sefydliadau anabledd yng Nghymru, ar y canllawiau a fydd yn berthnasol i etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, ein barn yw y dylai fod yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru ystyried y canllawiau hyn ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir yn ôl. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddarparu cymorth i bleidleiswyr.

Nodwn, fel rhan o'r Asesiad o Effaith Rheoliadol ar gyfer y Bil, fod Llywodraeth Cymru yn nodi y byddant yn darparu cyllid i gefnogi Swyddogion Canlyniadau wrth iddynt weithredu'r newid hwn, ac y bydd amcangyfrif o gostau’n cael ei gynhyrchu fel rhan o ddatblygu is-ddeddfwriaeth. Bydd cyllid priodol yn hanfodol i sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau yn gallu darparu’r cyfarpar a’r cymorth gofynnol yn ymarferol.

**Platfform gwybodaeth etholiadau yng Nghymru**

Yn ein hymateb i'r Papur Gwyn ar Weinyddiaeth Etholiadol a Diwygio, gwnaethom amlygu y byddai angen datblygu unrhyw blatfform gwybodaeth ar-lein i bleidleiswyr yng Nghymru mewn ffordd sy'n ategu yn hytrach na dyblygu ein dyletswyddau statudol presennol o amgylch gwybodaeth i bleidleiswyr. Dyma ein barn o hyd, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau nad yw unrhyw blatfform sy'n cael ei ddatblygu o dan y darpariaethau hyn yn torri ar draws nac yn dyblygu'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud i ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr.

Er bod y darpariaethau a nodir yng nghymal 27 yn eithaf eang ar y cyfan, gyda llawer yn cael ei adael i reoliadau yn y dyfodol gan Weinidogion Cymru, mae cymal 27(4)(b) yn nodi cyhoeddi datganiadau gan ymgeiswyr fel swyddogaeth bosibl i'w chyflawni gan y platfform wybodaeth. Mae hyn yn gyson â chynigion a osodwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ym Mhapurau Gwyn 2022 a 2017.

Gallai cyhoeddi datganiadau ymgeiswyr ar-lein helpu i gynyddu amlygrwydd ymgeiswyr ar gyfer rhai pleidleiswyr. Yn yr etholiadau lleol yng Nghymru yn 2022, gwnaeth ein hymchwil ganfod fod dros chwarter o bobl (28%) wedi'i ffeindio'n eithaf anodd neu'n anodd iawn cael gwybodaeth am ymgeiswyr. Dywedodd 45% o bleidleiswyr bod ganddynt ddigon o wybodaeth ynghylch ymgeiswyr i wneud penderfyniad gwybodus wrth bleidleisio.

Bydd nifer o faterion ymarferol i'w hystyried, yn enwedig o ystyried y nifer sylweddol o ddatganiadau ymgeiswyr y byddai angen eu cynnal cyn etholiadau prif gyngor cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y logisteg sy'n gysylltiedig â phrosesu cannoedd o ddatganiadau ymgeiswyr mewn ffrâm amser cymharol fyr, yn ogystal â gwirio geirwiredd a chynnwys (e.e. iaith dramgwyddus) unrhyw ddatganiadau. Fel y trafodwyd eisoes fel rhan o ddatblygiad y Rheolau drafft ar gyfer etholiadau lleol 2021, nid yw hon yn rôl y dylai Swyddogion Canlyniadau ei chyflawni oherwydd y beichiau gweinyddol sylweddol. Rydym wedi awgrymu'n flaenorol y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd yn ymgeisydd amlwg i gynnal platfform gwybodaeth etholiadau yng Nghymru a rheoli'r ddarpariaeth o ddatganiadau ymgeiswyr ar-lein.

- Sicrhau hygyrchedd y platfform gwybodaeth etholiadau a bod yr holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog ac mewn ystod o fformatau hygyrch, gan gynnwys fersiynau papur os oes angen.

- Unrhyw oblygiadau dichonadwy o ran tegwch o beidio â chael datganiadau ymgeiswyr ar gael ar-lein gan yr holl ymgeiswyr mewn etholiad penodol.

**Cronfa Mynediad at Swydd Etholedig**

Dylai'r penderfyniad i sefydlu Cronfa Mynediad at Swydd Etholedig yn barhaol, yn dilyn peilota'r gronfa yn 2021 a 2022, helpu i wella hygyrchedd sefyll etholiad yng Nghymru.

Wrth i Lywodraeth Cymru symud ymlaen â'r darpariaethau hyn cyn yr etholiadau datganoledig nesaf sydd wedi'u trefnu ar gyfer 2026 a 2027, dylai ystyried sut y gall godi ymwybyddiaeth o'r gronfa ymhlith ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol posibl. Yn ein harolwg o ymgeiswyr yn dilyn etholiadau lleol 2022, roedd llai na thraean o'r ymatebwyr (29%) yn ymwybodol bod Cronfa Mynediad at Swydd Etholedig ar waith. Yn ein hymateb i Bapur Gwyn y llynedd, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau priodol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gronfa cyn etholiadau 2026 a 2027, ac roeddem yn

falch o weld bod adroddiad ‘Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol’ diweddar y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad tebyg.

Byddai’r Bil hefyd yn caniatáu ar gyfer gwasanaethau neu gymorth ariannol i gael eu rhoi i gefnogi ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchodedig eraill neu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol eraill, drwy ddyletswydd drosfwaol newydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i hyrwyddo amrywiaeth o fewn y Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru.

Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried pa newidiadau, os o gwbl, y gallai fod eu hangen i reolau gwariant perthnasol er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw wasanaethau neu gymorth ariannol a ddarperir o dan y darpariaethau ehangach hyn yn cyfrif yn erbyn terfynau gwariant ymgeisydd. Fel y mae’r memorandwm esboniadol yn ei nodi, mae newidiadau tebyg eisoes wedi eu gwneud ar gyfer costau yn ymwneud ag anabledd ymgeisydd i sicrhau nad yw cyllid a ddarperir trwy’r Gronfa Mynediad at Swydd Etholedig yn cyfrif tuag at derfynau gwariant ymgeisydd. Bydd angen ystyried hefyd sut y gallai unrhyw wasanaethau neu gymorth ariannol a ddarperir o dan y darpariaethau hyn ryngweithio â rheolaethau presennol ar roddion i ymgeiswyr

## Pennod 5: Cyllid ymgyrchu

**Cyfreithiau cyllid ymgyrchu ar gyfer etholiadau datganoledig**

Bydd y darpariaethau hyn yn dod â nifer o gyfreithiau cyllid ymgyrchu ar gyfer etholiadau datganoledig yn unol â'r newidiadau cyfatebol ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022. Bydd hyn yn cynnwys cyfreithiau yn ymwneud â gwariant tybiannol, ymgyrchwyr trydydd parti a phwy sydd wedi’u hawdurdodi i wneud taliadau ar ran ymgyrch.

Dylai cynnal cysondeb ar draws gwahanol fathau o etholiadau fel hyn ei gwneud hi'n haws i ymgyrchwyr gydymffurfio â’r gyfraith ar draws etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig. Fel gyda'r newidiadau ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl sydd wedi'u cyflwyno gan y Ddeddf Etholiadau, byddwn yn parhau i ddarparu canllawiau i helpu’r gymuned reoledig i ddeall y gyfraith a chydymffurfio â hi. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu cod ymarfer ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau fel rhan o'r newidiadau y bydd Cymal 38 y Bil yn ei wneud i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro effaith a goblygiadau'r newidiadau hyn, mewn etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig.

# Rhan 2: Cyrff etholedig a’u haelodau

## Pennod 3: Anghymhwysiad a dylanwad gormodol

**Dylanwad gormodol**

Yn ein hymateb i Bapur Gwyn y llynedd ar Weinyddiaeth Etholiadol a Diwygio, roeddem yn gefnogol o gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiweddaru’r diffiniad o’r drosedd o ddylanwad gormod yn unol â’r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022.

Bydd egluro'r drosedd o ddylanwad gormodol fel hyn yn rhoi diogelwch mwy ystyrlon i bleidleiswyr yn erbyn ecsploetiaeth ac yn gwneud yn glir beth sy’n cael ei ystyried yn

ymddygiad derbyniol a beth sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad annerbyniol. Bydd hefyd yn ei gwneud yn symlach i'r heddlu weithredu pan fydd honiadau o ddylanwad gormodol yn cael eu gwneud.

Byddwn yn diweddaru ein canllawiau ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a gorsafoedd pleidleisio i nodi beth a ganiateir a beth na chaniateir mewn gorsafoedd pleidleisio. Byddwn hefyd yn diweddaru ein Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr ar yr hyn y dylent ei ystyried wrth ymgyrchu y tu allan i orsafoedd pleidleisio, a byddwn yn parhau i gynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd fel bod pleidleiswyr yn deall sut i amddiffyn eu pleidlais rhag dylanwad gormodol.

Fel y mae'r memorandwm esboniadol yn ei nodi, bydd y darpariaethau o fewn y Bil ei hun dim ond yn berthnasol i'r diffiniad o'r drosedd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r diffiniad ar gyfer etholiadau Senedd Cymru wedi'i nodi'n bresennol yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, a nodwn gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud newid cyfatebol ar gyfer Etholiadau Senedd Cymru pan fydd yn ail-wneud y Gorchymyn Ymddygiad cyn 2026.